

**Mae Gwaith yn datblygu yn llawr gwaelod y Pafiliwn gyda gosod trawstiau daear a waliau cynnal i gefnogi'r wal ddyrchafiad deheuol presennol. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar y cynllun cadw ffasâd ar y drychiad deheuol, gyda seiliau cynradd yn cael eu tywallt yn barod ar gyfer y gwaith dur cynhalio a'r blociau kentledge i'r pilastrau presennol.**

Mae paratodau'n cael eu gwneud ar gyfer gwaith gosod ac ail-leoli'r is-orsaf bresennol, ac mae'r wal gynnal i'r drychiad gorllewinol wedi dechrau.

Mae'r gwaith dros dro i wal ffin y dwyrain yn datblygu'n raddol, gyda'r wal gynnal sy'n cynnal y wal gerrig rhestredig bellach wedi'i gwblhau.

Rydym ar fin dechrau'r slab llawr i ardaloedd islawr y llawr gwaelod, i'r dwyrain ac i'r gorllewin, yn fuan, ac yna gosod system gynnal dros dro i'r lloriau presennol. Disgwylir i'r gwaith peilio ar y drychiad gorllewinol ac yn allanol gael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf. Disgwylir i'r cysylltiadau allfa draenio ddechrau yn ystod y cyfnod nesaf.

Disgwylir hefyd i osodiad gwaelod craen tŵr ddechrau yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae'r adeilad presennol yn dal i gyflwyno nifer o heriau i dîm y prosiect, ac mae'r heriau hyn yn cael eu datrys yn drefnus. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm cadwraeth, sy'n rhoi cymorth mawr.

## Diweddariad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Roeddym yn falch iawn o groesawu ein cyllidwyr a'n partneriaid o Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ar ymweliad diweddar.**

Weddi'i gynnal mewn partneriaeth â'n contractwyr Andrew Scott Ltd a'n partneriaid Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, cafodd y mynychwyr gyflwyniad ar gynnydd y gwaith gan Focus Consultants a'r penseiri Purcell, ac yna ymweliad â'r safle er mwyn gweld y cynnydd a gofyn unrhyw gwestiynau am y prosiect.

Daeth yr ymweliad yn fuan ar ôl cyhoeddiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn cadarnhau buddsoddiad ychwanegol o £678k ar gyfer cyflwyno'r pecyn diweddaraf o'r gwaith datblygu.

I gael rhagor o wybodaeth am brosiect aildatblygu'r Pafiliwn y Grand, ewch i dudalennau gwe'r cyngor.



## Diweddariad Gwerth Cymdeithasol Andrew Scott Ltd

Rydym wedi ymgysylltu'n weithredol ag ysgolion lleol yn yr ardal i gefnogi mentrau dysgu STEM. Mae Rosie, ein Cydlynnydd Gwerth Cymdeithasol, wedi cyflwyno gweithdai dylunio a phensaerniaeth mewn dwy ysgol gynradd ym Mhorthcawl. Yn Ysgol Gynradd West Park, cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 gyflwyniad i gynlluniau'r Pafiliwn y Grand a'r cyfle i ddylunio cynlluniau a'u gosodiadau llawr delfrydol eu hunain. Yn yr un modd, mae Ysgol Gynradd Newton wedi cymryd rhan yn y gweithdai hyn ar draws pob grŵp blwyddyn, o'r feithrinfa hyd at Flwyddyn 6, gyda lefel yr anhawster wedi'i haddasu'n briodol ar gyfer pob grŵp oedran.

Rydym yn parhau i feithrin perthnasoedd gyda sawl ysgol, gan gynnwys Ysgol Gynradd West Park, Ysgol Gynradd Nottage, Ysgol Gynradd Porthcawl, ac Ysgol Gynradd Newton. Bydd pob un o'r ysgolion hyn yn cael cynnig am ragor o weithdai yn ystod y tymhorau nesaf, yn ogystal â gwahoddiadau i ddisgyblion ymweld â'r safle ac arsylwi ar gynnydd y prosiect.

Mae Ysgol Gynradd West Park ac Ysgol Gynradd Newton eisoes wedi mynychu ymweliadau safle, lle cawsant drosolwg o gynlluniau'r prosiect a'r cynnydd presennol. Bydd pob ysgol sydd yn cymryd rhan yn cael cyfleoedd ychwanegol i ymweld â'r safle a gweld y datblygiad drostynt eu hunain.

Yn ogystal, bydd tri myfyriwr o Ysgol Gyfun Porthcawl yn cymryd rhan mewn ymweliad safle sy'n cyd-fynd â'u cwrs Dylunio Cynnyrch Lefel A.

Fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i'r gymuned, rydym hefyd wedi cwblhau gwaith glanhau mewnol lefel uchel yn Eglwys y Santes Mair, Pen-y-bont ar Ogwr.



Pafiliwn y Grand Porthcawl  
Grand Pavilion Porthcawl

**30/31**  
MAY MAI 2026

FROM 11am  
11am YMLAEN

**FREE AM DDIM**

**SEASCAPE MORLUN** PORTHCAWL 2026

**FAMILY FESTIVAL GWYL I DELUOEDD**

**LIVE MUSIC // CERDDORIAETH FYW**  
**OUTDOOR ARTS // CELFYDDYDAU AWYR AGORED**  
**STREET PERFORMANCE // PERFFORMIADAU STRYD**

**COSY CORNER // PORTHCAWL HARBOUR**  
**HARBWR PORTHCAWL // GRIFFIN PARK**  
**PARC GRIFFIN // JOHN STREET BANDSTAND**  
**STONDYN BAND STRYD JOHN //**

awen

www.grandpavilion.co.uk